Brîff Arferion Da

@taipawb

# Ailgartrefu Cyflym ac ystyriaethau cydraddoldeb

Ionawr 2024



tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

# Crynodeb

Gan ddefnyddio tystiolaeth o Gymru a thramor, mae'r ddogfen hon yn edrych ar ac yn ystyried ffactorau cydraddoldeb ymarferol ar gyfer Ailgartrefu Cyflym.

# Cyd-destun



Mae Ailgartrefu Cyflym yn hanfodol i Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. Fel ysgogydd y Papur Gwyn ar ddiwygio digartrefedd, bydd Ailgartrefu Cyflym yn parhau i ddylanwadu ar bolisi, strategaethau, a deddfwriaeth tai.

### Beth yw Ailgartrefu Cyflym?

IYng Nghymru, mae Ailgartrefu Cyflym yn gweithredu ar yr egwyddorion canlynol:

- Tybir fod pawb yn 'barod am dŷ' gyda'r gefnogaeth gywir.
- Mae pobl yn treulio cyn lleied o amser â phosib mewn llety dros dro.
- Pan fydd pobl angen llety dros dro, mae o safon uchel.
- Mae pobl yn gallu cael mynediad i'r cartref cywir yn y lle iawn iddyn nhw.
- I'r rhan fwyaf o bobl, cartref annibynnol, prif ffrwd fydd y dull diofyn, ond gall eraill ddewis llety â chymorth.
- Mae pobl yn gallu cael mynediad at gymorth amlasiantaethol o ansawdd uchel, wedi'i deilwra ar gyfer anghenion unigol, lle bo angen hyn

Mae arferion da o'r UDA, lle tarddodd y dull hwn, yn nodi tair elfen graidd:

- ·Canfod tai – mae rhaglen Ailgartrefu Cyflym yn helpu pobl i ddod o gyd i gartrefi fforddiadwy ac mae'n recriwtio (ac yn helpu) landlordiaid sy'n barod i rentu fel rhan o'r rhaglen.
- ·Cymorth i rentu a symud i mewn – mae hwn yn help dros dro fel arfer a gall gynnwys y costau'n llawn neu gyfran ohonynt. Dylai cronfeydd gael eu defnyddio'n hyblyg yn ddibynnol ar anghenion yr aelwyd.
- ·Rheoli achosion a gwasanaethau Ailgartrefu Cyflym – mae hyn yn sicrhau bod gan bobl gartref sy'n diwallu eu hanghenion a'u bod yn gallu parhau yno pan ddaw'r cymorth i ben. Gallai hyn gynnwys gwneud y gorau o fudd-daliadau, cymorth cyflogaeth, ond drwy ei ddiffinio yn yr ystyr ehangaf mi fydd yn golygu pa gymorth bynnag sydd ei angen ar yr unigolyn i gadw tenantiaeth.

# Cydraddoldeb ac Ailgartrefu Cyflym

Mae adolygiad diweddar o Ailgartrefu Cyflym yn yr Alban, wedi argymell y dylid diwygio'r canllawiau i sicrhau "it is equalities proofed"[1]. Yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd a Thai "y dylai awdurdodau lleol bob amser gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb… gan gynnwys eu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym."

Mae ein system ddigartrefedd yn y DU wedi'i gorgynrychioli gan bobl anabl, goroeswyr cam-drin domestig, teuluoedd un rhiant, ffoaduriaid a phobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau/alcohol, ac iechyd meddwl. Mae tystiolaeth Ailgartrefu Cyflym o'r DU wedi dangos bod yn rhaid i gymorth "roi sylw i a'i fod wedi'i lunio i roi sylw i anghenion unigol…is-boblogaethau targed y rhaglen fel ieuenctid, goroeswyr cam-drin domestig neu bobl sy'n profi digartrefedd cronig."

Mae ymchwil Tai Pawb i bobl â nodweddion gwarchodedig a'u profiadau o ddigartrefedd wedi amlygu heriau penodol wrth ymgysylltu â gwasanaethau digartrefedd, a allai fod yn rhwystr i Ailgartrefu Cyflym.

Os yw Ailgartrefu Cyflym am lwyddo a helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, rhaid iddo roi sylw i ystyriaethau cydraddoldeb. Byddai ceisio ailgartrefu pobl yn gyflymach, heb ystyried eu hanghenion yn cynyddu'r perygl o brofi digartrefedd unwaith eto, gyda'r holl effeithiau negyddol ar fywydau pobl a'r gost i'r coffrau cyhoeddus.

## Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gofyniad ar bob awdurdod lleol i gynhyrchu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi'r modd i'r awdurdod lleol a phartneriaid i symud tuag at fodel cyflawni newydd. Dylent gynnwys y manylion canlynol:

- dealltwriaeth o lefel yr anghenion tai a chymorth, gan gynnwys faint o aelwydydd sy'n symud neu'n aros i symud i leoliadau dros dro; faint a pha fath o dai sydd ei angen er mwyn cartrefu pobl yn barhaol; a phwy sydd angen cefnogaeth, ac ar ba lefel, i gynnal eu tenantiaeth.
- dull cydgysylltiedig a strategol o nodi ffynonellau tai gan awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac o fewn y Sector Rhentu Preifat;
- rhaglenni adeiladu tai sy'n ystyried yr angen am dai, er enghraifft drwy Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol;
- polisïau dyrannu landlordiaid ac awdurdodau lleol sy'n blaenoriaethu aelwydydd heb gartref parhaol;
- ymrwymiad aml-asiantaethol i ddarparu cymorth, yn enwedig gan wasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau;
- ystod gynhwysfawr o weithgareddau atal, megis gwasanaethau cyfryngu a chyngor;
- pobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd yn cael rôl wrth lywio a chyd-gynhyrchu cynlluniau a gwasanaethau o fewn y newid i Ailgartrefu Cyflym.

**Dywed canllaw Llywodraeth Cymru hefyd y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cynlluniau hyn**. O ystyried y data sydd eisoes ar gael am y boblogaeth ddigartref, mae'n hanfodol bod ystyriaethau cydraddoldeb yn elfen gyson o gynlluniau Ailgartrefu Cyflym drwy bob cam o'u datblygiad. Er enghraifft, mae gan gyflenwad y cartrefi, y math o gymorth a ddarperir a lleoliad y cartrefi oblygiadau o ran amrywiaeth, ynghyd â deall anghenion iaith neu gyfathrebu'r boblogaeth leol o safbwynt gwasanaethau cyfryngu a chynghori.

**Argymhelliad** – Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bellach wedi cwblhau eu cynlluniau pontio (Rhagfyr 2023), pan fyddant yn eu hadolygu nesaf, dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i gydraddoldebau wrth iddynt bontio i ddull Ailgartrefu Cyflym. Mae hefyd yn bwysig ystyried asesu gweithgareddau unigol sy'n deillio o'r Cynllun Pontio, gan y gallai hyn fwrw golwg ymarferol ar lefel gyflawni. Ceir canllaw ar wneud hyn yma. Dylid hefyd ystyried cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Data cadarn i gynorthwyo cynllunio a chyflawni

Mae data cadarn ar y boblogaeth ddigartref (a chyffredinol) yn hanfodol i gynlluniau i ddeall tueddiadau presennol a'r dyfodol. Mi all casglu'r data hyn helpu'n rhagweithiol i gyflenwi'r cartrefi a'r gwasanaethau cywir i bobl yn seiliedig ar eu hanghenion yn ogystal â chanfod pa fathau o eiddo fydd ei hangen yn y dyfodol. Er enghraifft, data ar faint aelwydydd, anabledd, ac ethnigrwydd, rhyw a rhywedd, yn ogystal â deall unrhyw heriau maent yn eu hwynebu, y lleoliad a ffefrir neu eu hanghenion cymorth. Mae cael data cyfoes a'u hadolygu'n rheolaidd hefyd yn helpu â gwaith ataliol, a chanfod cymunedau sy'n fwyfwy tebygol o brofi digartrefedd.

**Argymhelliad** – Defnyddir Ailgartrefu Cyflym fel cyfle i adolygu a myfyrio ar gasglu data i lywio ac asesu unrhyw gomisiynu a darparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys gwaith ataliol.



## Cyflenwad sy'n seiliedig ar ddata

Dylai'r cyflenwad fod yn addas i anghenion y boblogaeth ddigartref, gan gynnwys ei faint a'i hygyrchedd. Mi allai hyn amrywio mewn ardaloedd yn ôl eu poblogaeth. Er y bydd angen i gyfran uchel o gartrefi fod yn llety un ystafell wely, bydd hefyd angen cyflenwad o gartrefi hygyrch, a bydd angen diwallu anghenion teuluoedd mwy, a all fod yn awyddus i fyw mewn aelwydydd sy'n cynnwys sawl cenhedlaeth. I rai cymunedau, mi all hefyd olygu ystyriaethau dylunio ehangach fel sicrhau bod y gegin a'r cyfleusterau coginio wedi'u gwahanu oddi wrth yr ystafelloedd eraill. Ar ôl casglu a dadansoddi'r data hyn, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y math cywir o eiddo ar gael, drwy ymgysylltu â landlordiaid preifat a chymdeithasol, yn ogystal â datblygwyr.

**Argymhelliad** – Rhaid i Ailgartrefu Cyflym gyd-fynd â chynllun yr awdurdod lleol i gyflenwi cartrefi, gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a data ar ofynion y boblogaeth ddigartref.

## Lleoliad a chysylltiadau

Mi all lleoliad cartref fod yn arbennig o bwysig i bobl sy'n anabl neu sy'n rhan o gymunedau sy'n amrywiol o safbwynt ethnig. Yn achos pobl anabl, gall lleoliad sy'n agos at ysbyty, amwynderau neu gludiant cyhoeddus hygyrch fod yn allweddol i gadw tenantiaeth. Yn achos pobl o gymunedau sy'n amrywiol o safbwynt ethnig, mi all cartrefi mewn ardaloedd lle mae lefelau uwch o amrywiaeth, siopau sy'n briodol i'w diwylliant (h.y. cigyddion Halal) a rhwydweithiau cymorth posibl fod yn fanteisiol.

Yn draddodiadol, mi all awdurdodau lleol ystyried cysylltiadau teuluol wrth ailgartrefu pobl ddigartref. Mae ein hymchwil i ddigartrefedd yng Ngwent ar gyfer pobl LHDTC+ wedi dangos bod rhai aelodau o'r gymuned yn ffafrio cyfeillgarwch clos yn fwy na chymorth mwy traddodiadol y teulu. Felly, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i rai pobl LHDTC+ i gadw tenantiaeth, dylid ystyried eu lleoli yn agos at ffrindiau, fel y lleolir pobl eraill yn agos at eu teulu. Mi all hyn fod yn berthnasol hefyd i unrhyw brofion 'cysylltiad lleol'.

Mi all Troseddau Casineb fod yn ffactor sy'n cyfrannu at ddigartrefedd. Mi wyddom hefyd fod rhai grwpiau (h.y., ffoaduriaid, pobl LHDTC+) mewn mwy o berygl o brofi digartrefedd. Mae deall y lefelau presennol o droseddau casineb mewn ardal yn ddefnyddiol i helpu pobl i gadw tenantiaethau. Er enghraifft, os gwyddys fod lefelau uchel o droseddau casineb wedi digwydd mewn ardal yn y gorffennol, efallai na fyddai'n briodol i leoli unigolion sydd mewn perygl cynyddol o'i brofi yn y lleoliad hwnnw.

## Anghenion cymorth

Efallai y bydd rhai aelwydydd, yn enwedig rhai sy'n anabl, sy'n ffoaduriaid, sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n camddefnyddio sylweddau/alcohol, angen cymorth mwy dwys a thymor hir. Mae Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer anghenion cymorth pobl yn seiliedig ar anghenion isel, canolig, uchel, a dwys. Wrth wneud penderfyniadau ar anghenion pobl, dylai hyn gael ei wneud mewn ffordd sy'n deall nodweddion gwarchodedig a/neu groestoriadedd, gyda phenderfyniadau'n cael eu cofnodi i wneud yn siŵr nad oes rhagfarn wrth gategoreiddio.

Mae ymchwil i ddigartrefedd yn Swydd Efrog, Nottingham a Llundain wedi nodi camau allweddol i gadw tenantiaethau, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- 
- Cymorth tenantiaeth amlwg ac ymarferol – (hawlio budd-daliadau, amserlenni i dalu ôl-ddyledion, trefnu biliau cyfleustodau, addurno eiddo)
- Eiddo wedi'u dodrefnu neu becynnau cychwyn
- Trafnidiaeth i helpu pobl i symud i mewn i'r eiddo
- Help gyda chyflogaeth a hyfforddiant
- Cymheiriaid sy'n mentora i helpu pobl i integreiddio ac i ymgartrefu yn y gymuned.

Dylai'r gwasanaethau hyn gael eu dylunio i ddiwallu anghenion cymunedau amrywiol i roi'r siawns gorau i bobl i gadw tenantiaethau.

## Croestoriadedd a hygyrchedd gwasanaethau

Mae ymchwil gan Shelter Scotland wedi dangos bod angen i ddarparwyr ystyried croestoriadedd i gyflawni trosglwyddiadau llwyddiannus o lety dros dro. Yn benodol, mae ymchwil wedi dangos sut y gall ethnigrwydd ryngweithio â rhywedd, incwm isel, neu anabledd i gymhlethu'r heriau wrth geisio canfod llety parhaol, gan arwain at arosiadau hir mewn llety dros dro. Roedd mynediad at wasanaethau cynghori ymatebol sy'n seiliedig ar anghenion pob unigolyn yn fuddiol i ystyried heriau lluosog ac i sicrhau cartref parhaol.

## Fforddiadwyedd

Dylai lleoliadau fod mewn cartrefi sy'n fforddiadwy i'r bobl sy'n symud iddynt, fel na fydd tenantiaethau'n cael eu peryglu cyn iddynt gychwyn. Dylid cynnig help i gyllidebu ac i wneud y gorau o hawliadau am fudd-daliadau (gan gynnwys unrhyw bensiynau y mae ganddynt hawl iddynt ond sydd heb eu hawlio eto). Mae tystiolaeth o'r UDA wedi dangos budd darparu cymorthdaliadau i gyfrannu at neu i dalu rhent am gyfnod cyn iddo leihau'n raddol. Gellid edrych ar ffyrdd arloesol o wneud hyn, boed hynny drwy daliadau tai dewisol neu gyllidebau hyblyg eraill. I sicrhau bod tenantiaethau'n hyfyw, rhaid sicrhau dealltwriaeth o gostau byw yn eu cyfanrwydd. Er enghraifft, mae ymchwil gan Anabledd Cymru wedi dangos y bydd gan rai pobl anabl gostau gwresogi neu drydan ychwanegol.

## Cam-drin domestig

Mae arferion da o'r UDA wedi dangos sut y gall Ailgartrefu Cyflym weithredu orau i helpu goroeswyr cam-drin domestig.

Mewn ardaloedd eraill, mae Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Cyngor Dinas Dundee yn amlygu cymorth rhywedd penodol. Gan weithio ochr yn ochr â Chymorth i Ferched Dundee, bydd cydlynydd a gweithiwr cymorth yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gwasanaeth prif ffrwd Housing First i ddarparu cymorth penodol i fenywod a'u plant ac maent yn llywio gofynion gwasanaeth cymorth rhywedd penodol ar gyfer y dyfodol.

Mae Cyngor Renfrewshire wedi ariannu swydd 0.5 cyfwerth ag amser llawn drwy SAY Women i ddarparu cymorth emosiynol i fenywod ifanc 16 i 25 oed sy'n oroeswyr cam-drin rhywiol, trais neu ymosodiadau rhywiol. Nod SAY Women yw atal ailadrodd cylchoedd o ddigartrefedd a chynyddu cynaliadwyedd tenantiaethau i'r menywod ifanc maent yn gweithio â hwy. Erbyn Gorffennaf 2021, roeddent wedi helpu wyth o fenywod ifanc drwy 43 o sesiynau ac 83 o alwadau llesiant.

Dylid rhoi sylw i leoliad cartrefi newydd i sicrhau bod y dioddefwr yn ddiogel oddi wrth y cyflawnwr (gan gynnwys eu teulu a'u ffrindiau). Gall hyn olygu cael eiddo mewn llawer o ardaloedd gwahanol neu'r gallu i atgyfeirio at awdurdodau lleol eraill. Dylai Ailgartrefu Cyflym ystyried amgylchiadau lle gallai'r cyflawnwr gael ei ailgartrefu, gan alluogi'r dioddefwr i aros ar eu haelwyd eu hunain. Er bod hyn yn ddadleuol, mi all hyn roi'r cyfle gorau i'r goroeswr i ailadeiladu eu bywyd. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid meddwl am y lleoliad o'i gymharu â'r dioddefwr a hefyd agosrwydd at bobl eraill agored i niwed a all fod mewn perygl o brofi camfanteisio.

## Llety â chymorth

Bydd llety â chymorth yn parhau i fod yn rhan bwysig o wasanaethau digartrefedd, heb ystyried Ailgartrefu Cyflym. Mae adborth o'n hymchwil i lety digartrefedd yng Ngwent wedi dangos bod cynnig gwasanaethau cynhwysol yn arwain at ganlyniadau gwell ac yn helpu i atal profiadau o ddigartrefedd yn y dyfodol i aelodau'r gymuned LHDTC+. Dylai llety, gwasanaethau, a hyfforddiant gael eu haddasu i ddiwallu anghenion y boblogaeth ddigartref sy'n aros yno. Gyda llai o bobl mewn llety â chymorth, dylid ystyried cyfleoedd i edrych ar wasanaethau mwy arbenigol.

Sefydlodd y Wallich hostel Tŷ Tom Jones  yn ystod y pandemig Covid-19. Mae'r hostel yn cynnwys 24 o ystafelloedd gwely a'i nod yw symud pobl sy'n cysgu ar y stryd i'w cartref eu hunain mor gyflym â phosibl. Gan weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol, ar ôl 18 mis, roedd 50 o bobl wedi sicrhau eu llety eu hunain gydag 88% o'r rhai a oedd yn 'symud ymlaen' wedi cadw eu llety.

Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, mae'r Wallich yn darparu cymorth dwys, cofleidiol sydd wedi'i seilio ar anghenion y cleient, boed hynny'n ymwneud â chymorth tai, cwnsela, defnydd o sylweddau neu help â chyflogaeth. Wedi'i seilio ar anghenion yr unigolyn, mae rhai arosiadau cyn fyrred ag ychydig wythnosau gydag eraill yn aros yn hwy, yn ddibynnol ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Er bod y gwasanaeth a'r cymorth cofleidiol wedi'i gynllunio i gael ei ddarparu'n gyflym, rhwystr sy'n aros yw'r diffyg cartrefi cymdeithasol a mynediad at PRS.

## Pobl ifanc

Yn yr UDA , mae'r National Alliance to End Homelessness wedi cynhyrchu pecyn cymorth i ailgartrefu pobl ifanc yn gyflym. Er eu bod yn dilyn yr un dull ag Ailgartrefu Cyflym, mae gwersi a ddysgwyd yn cynnwys dilyn athroniaeth Housing First, ymgysylltu â landlordiaid a phwysigrwydd gwasanaeth cymorth sy'n hyblyg o ran dull gweithredu, cyllid, a chanlyniadau. Mae ymchwil gan End Youth Homelessness Cymru hefyd yn helpu i lywio gwasanaethau.

## Gwneud cysylltiadau

Pan fydd aelwydydd wedi cael eu cartrefu, bydd cymorth Ailgartrefu Cyflym yn helpu pobl i gysylltu â pha bynnag wasanaethau sy'n bwysig iddynt yn y gymuned. Dylai'r rhain gynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r aelwyd i gadw tenantiaeth, fel rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, eglwysi neu fosgiau, gwasanaethau gofal plant, a meddygon. Mi all hyn helpu pobl i ailadeiladu eu bywydau ac i gadw tenantiaethau.

## Recriwtio landlordiaid preifat

O ystyried y gymysgedd o ddeiliadaethau, mae Ailgartrefu Cyflym angen i'r Sector Rhentu Preifat lwyddo. Mi all rhai landlordiaid preifat fod yn amharod i osod eu heiddo i bobl sydd wedi bod yn ddigartref. Mae Allweddi Caerffili, sy'n cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn helpu landlordiaid preifat i ddod o hyd i denantiaid tymor hir i eiddo, gan helpu i atal digartrefedd. Mae'r cymorth a gynigir yn cynnwys rheoli tenantiaethau, cyllido, cynyddu incwm, lleihau dyledion, cymorth ag addysg, dysgu a chyflogaeth, ac atgyfeirio at asiantaethau eraill. Ar lefel genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cynllun Lesio Cymru i gynnig gwasanaeth tebyg.

Mae cael dull cywir o ymgysylltu a siarad â landlordiaid y sector rhentu preifat hefyd yn bwysig. Mae Tai Pawb wedi cynhyrchu canllaw ar sut i ymgysylltu â **landlordiaid y sector rhentu preifat yn ogystal ag A-Y ar gydraddoldeb i'w helpu i ddeall materion cydraddoldeb.**

**Argymhelliad –** Awdurdodau lleol i ganfod a gweithredu dulliau i recriwtio a chadw landlordiaid preifat, yn benodol ar gyfer eiddo a all gael eu gosod i gleientiaid ag anghenion cymhleth.

## Sipsiwn, Roma, a Theithwyr

Bydd angen i gynlluniau Ailgartrefu Cyflym ddarparu ar gyfer digartrefedd ymhlith Sipsiwn, Roma, a Theithwyr. Gallai hyn gynnwys achosion pan fydd eu cerbydau a'u cartrefi'n cael eu symud o dan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd newydd. Mae ein hymchwil i brofiadau o ddigartrefedd ymhlith Teithwyr wedi amlygu heriau sy'n gysylltiedig â llety dros dro, gan gynnwys maint, prinder llety sy'n briodol yn ddiwylliannol, ac amharodrwydd rhai i symud i gartrefi brics a morter traddodiadol. Bydd angen i'r anghenion hyn, ac eraill, gael sylw os yw Ailgartrefu Cyflym am fod yn berthnasol a llwyddiannus yn achos cymunedau Teithwyr.

## Ffoaduriaid

Mae polisi lloches y Swyddfa Gartref wedi newid yn y DU a rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru helpu i gartrefu nifer o geiswyr lloches. Pan fydd hawl i aros yn cael ei ganiatáu i Geiswyr Lloches a'u bod yn dod yn ffoaduriaid, rhybudd o 28 diwrnod yn unig i adael eiddo a roddir fel arfer – sy'n golygu y bydd pobl mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae anallu i sicrhau gwaith cyn hyn yn golygu bod prinder arian neu hanes credyd yn ei gwneud yn anodd i gael PRS. Gan fod yr amser mor brin, mae ffoaduriaid yn aml yn canfod eu hunain yn ddigartref neu nid ydynt yn gofyn am gymorth tai o gwbl o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth neu wybodaeth – yn enwedig yn achos dynion sengl neu gyplau. Mi all Gwasanaeth symud ymlaen Cyngor Ffoaduriaid Cymru gynnig cymorth hanfodol yn ystod y cyfnod hwn. Pan fydd ffoaduriaid yn diweddu mewn llety dros dro, mae ein hastudiaeth ddichonoldeb ffoaduriaid yn llywio'r math o gymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd ei angen.

**Argymhelliad –** Dylai timau Ailgartrefu Cyflym fod yn ymwybodol o'r boblogaeth ceiswyr lloches yn eu hawdurdod lleol a chyfansoddiad /anghenion pob aelwyd i helpu i drefnu eiddo a gwasanaethau priodol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w chael yma yn ein Brîff Arferion da. Dylid meithrin cysylltiadau â swyddog arweiniol adsefydlu'r awdurdod lleol sydd â chysylltiad â'r Swyddfa Gartref drwy Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru.

## Pobl heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus

Rhaid i Ailgartrefu Cyflym ystyried hefyd y bobl y mae eu statws mewnfudo'n golygu nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF), gan gynnwys ceiswyr lloches diymgeledd neu rai mewnfudwyr digartref penodol. Er nad oes ffigurau pendant – mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y gallai hyn fod rhwng cant a dros fil o bobl yng Nghymru bob blwyddyn. Os ydym am gael dull 'neb yn cael eu gadael allan', rhaid ystyried sut y gellir helpu pobl. Er nad yw rhai pobl yn gymwys i gael cymorth o ganlyniad i'w statws mewnfudo, mi allant fod yn gymwys mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant neu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi cynhyrchu canllaw ar gamsyniadau cyffredin o ba gymorth a ellir ei gynnig. Mae adroddiad hyfywedd Llywodraeth Cymru'n nodi modelau llety posibl a'r angen am fwy o hyfforddiant ac arweiniad i staff i ddeall yn well sut y gellir helpu pobl. Mewn achosion lle gellir cynnig cymorth, dylai fod yn gyfannol a chynnwys cyngor ac eiriolaeth, ac mi all mwy o hyfforddiant i staff helpu i ganfod amgylchiadau lle gellir cynnig help.

## Monitro a gwerthuso Ailgartrefu Cyflym

Fel yn achos unrhyw raglen o faint sylweddol, mae monitro'n bwysig i fesur llwyddiant yr ymyriad. Mae'r National Alliance to End Homelessness wedi cynhyrchu Pecyn Cymorth sy'n cynnwys awgrymiadau ar sut a beth i'w fonitro. Gellid llunio adnodd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gydraddoldebau, gan addasu'r mesurau a ddefnyddir yn y pecyn cymorth hwn drwy ganolbwyntio ar unrhyw wahaniaethau rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig a'r cyfartaledd.

### Y camau nesaf

Mae Ailgartrefu Cyflym yn bolisi newydd i Gymru. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion a'r arferion da'n debyg i feysydd eraill o waith awdurdodau lleol, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, fel cynnwys tai yn gyntaf ac atal. Mi all sefydliadau elwa drwy adolygu a throsglwyddo arferion da o'r mentrau hyn. Hoffem glywed hefyd gan aelodau am eu llwyddiant a'u heriau wrth iddynt barhau â'r broses bontio i'r ffordd hon o weithio.

# Cymorth sydd ar gael gan Tai Pawb

Gall Tai Pawb helpu aelodau gydag Ailgartrefu Cyflym yn y ffyrdd canlynol:

- Mae ein tudalen Adnoddau yn cynnwys gwybodaeth am byncia sy'n cynnwys digartrefedd, rheoli tenantiaethau, hygyrchedd, a'n cyhoeddiadau.
- Mae ein tudalen Gwrth-hiliaeth yn cynnwys gwybodaeth ar helpu sefydliadau.
- Gallwch gynnig hyfforddiant i aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau – mae manylion am y cyrsiau sydd ar gael yma.
- Mae rhagor o wybodaeth i Awdurdodau Lleol ar fuddion eu haelodaeth ar gael yma.
- Mae arweiniad ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael yma gyda hyfforddiant ar gael hefyd.

tai pawb
promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai